# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
# CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL

## HYSBYSIAD O WNEUD GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS 2026

## DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 119

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI – PLWYF LLANFEDW

LLWYBR TROED CYHOEDDUS RHIF 1

Bydd y Gorchymyn uchod, a wnaed ar 23/06/2026 o dan adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn gwyro'r llwybrau troed cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r llwybrau a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen isod fel y'i dangosir ar fap y Gorchymyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn yn Nhŷ Penallta yn rhad ac am ddim rhwng 9am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir cael copïau digidol o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim ar gais i'r Gwasanaethau Cyfreithiol (cyfeiriad isod) a gellir archebu copïau papur yn Nhŷ Penallta am gost o £5.00.

Gellir anfon unrhyw sylwadau ynghylch y Gorchymyn, neu mewn gwrthwynebiad iddo, yn ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (cyfeiriad isod) erbyn 23/08/2026. Nodwch y rhesymau dros eu gwneud.

Os na wneir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau mewn pryd, neu os tynnir unrhyw rai a wneir yn ôl, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gadarnhau'r Gorchymyn yn Orchymyn diwrthwynebiad. Os anfonir y Gorchymyn at Weinidogion Cymru am gadarnhad, bydd unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau na chawsant eu tynnu yn ôl yn cael eu hanfon gyda'r Gorchymyn.

### ATODLEN

### RHAN 1

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR PRESENNOL NEU'R FFORDD BRESENNOL

Y rhan honno o lwybr troed 1 o fan yn y llwybr troed i'r gogledd o wal derfyn Castell Rhiw'r-perrai yn gyffredinol i gyfeiriad y de a'r de-ddwyrain i fynd heibio i wal orllewinol Castell Rhiw'r-perrai gan droi yn gyffredinol i gyfeiriad y de-orllewin a'r de i gwrdd â'r wal derfyn ddeheuol ac yn parhau drwy'r caeau amaethyddol i'r de.

### RHAN 2

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEWYDD NEU'R FFORDD NEWYDD

Llwybr troed newydd o fan yn y llwybr troed i'r gogledd o wal derfyn Castell Rhiw'r-perrai gan fynd i mewn i'r tir trwy fwlch yn y wal derfyn ac yn mynd ymlaen yn gyffredinol i gyfeiriad y de gan fynd heibio i'r gorllewin o'r arena ymarfer ceffylau. Ar ddiwedd yr arena ymarfer ceffylau, mae'r llwybr yn troi tua'r de-ddwyrain ac yn mynd i mewn i'r coetir ac yna'n troi i gyfeiriad y de rhwng coed hyd at y wal derfyn ddeheuol lle mae'n gadael tir y castell trwy fwlch arall, yn croesi trac amaethyddol ac yn troi tua'r de-ddwyrain i derfynu yn llwybr presennol llwybr troed 1 sy'n parhau heb ei effeithio i gyfeiriad y de-ddwyrain.

Dyddiad: **23 Gorffennaf 2026**

Robert Tranter,
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG
SGGwasCyf@caerffili.gov.uk

## NOTICE OF MAKING PUBLIC PATH DIVERSION ORDER 2026

## HIGHWAYS ACT 1980, SECTION 119

THE CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL PARISH OF LLANFEDW

PUBLIC FOOTPATH NO 1

The above named Order, made on 23/06/2026 under section 119 of the Highways Act 1980 will divert the public footpaths described in Part 1 of the Schedule to the routes described in Part 2 of the Schedule below as shown on the Order map.

A copy of the Order and the Order map may be seen at Penallta House free of charge between 9 a.m. and 4.30 p.m. Mondays to Fridays. Digital copies of the Order and map may be obtained free of charge upon request to Legal Services (address below) and paper copies may be ordered at Penallta House at a cost of £5.00.

Any representations about or objections to the order may be sent in writing addressed to the Head of Legal Services (address below) not later than 23/08/2026. Please state the grounds on which they are made.

If no such representations or objections are duly made, or if any so made are withdrawn, the Caerphilly County Borough Council may confirm the Order as an unopposed Order. If the Order is sent to the Welsh Ministers for confirmation any representations and objections which have not been withdrawn will be sent with the Order.

### SCHEDULE

### PART 1

DESCRIPTION OF SITE OF EXISTING PATH OR WAY

That part of footpath 1 from a point on the footpath to the North of Ruperra Castle boundary wall in a generally south and south-easterly direction to pass the Western wall of Ruperra Castle turning in a generally south-westerly and southerly direction to meet the South boundary wall and continuing through the agricultural fields to the south.

### PART 2

DESCRIPTION OF SITE OF NEW PATH OR WAY

A new footpath from a point on the footpath to the North of Ruperra Castle boundary wall enters the grounds via a gap in the boundary wall and proceeds in a generally southerly direction passing to the west of the horse exercise arena. At the end of the horse exercise arena the path turns south-easterly and enters the woodland and then turns in a southerly direction between trees to the southerly boundary wall where it exits the castle grounds via another gap, crosses an agricultural track and turns south-east to terminate on the existing route of footpath 1 which continues unaffected in a south-easterly direction.

Dated: **23rd July 2026**

Robert Tranter,
Head of Legal Services & Monitoring Officer,
Caerphilly County Borough Council,
Penallta House, Tredomen Park, Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG
LegalSGO@Caerphilly.gov.uk